

Y CRIW Mentrus

Cystadleuaeth Ysgolion Cynradd



Llawrlyfr y Gystadleuaeth a Meini Prawf Barnu – 2020/21

Ynghylch y gystadleuaeth

Nod Cystadleuaeth Genedlaethol Ysgolion Cynradd y Criw Mentrus - Syniadau Mawr Cymru sy'n rhan o raglen Entrepreneuriaeth Ieuenctid Llywodraeth Cymru yw datblygu sgiliau entrepreneuriaid ymhlith plant mewn ffordd ddifyr a rhyngweithiol.

Y cyfan sy'n rhaid i chi ei wneud yw datblygu a gweithredu syniad busnes naill ai fel unigolyn neu o fewn timau yn eich ysgol, cymuned neu ar yr aelwyd gartref. Gall hwn fod yn syniad newydd sbon neu'n weithgaredd menter rydych chi eisoes wedi'i ddatblygu. Cyn belled â'i fod yn digwydd rhwng 1 Ionawr 2020 a 10 Mai 2021 mae'n gymwys. Gallwch arddangos eich cyflawniadau trwy 3 categori'r gystadleuaeth sef Cynradd Is, Cynradd Uwch neu Gymuned / Aelwyd y Cartref.

Tîm o gymeriadau uwch-arwyr ydy'r Criw Mentrus sy'n ymgorffori'r ymddygiad entrepreneuriaid y gwyddom ei fod yn bodoli ymhlith pobl ifanc yng Nghymru. Maent wedi eu seilio ar ein model o Entrepreneuriaeth, sef: Agwedd; Creadigedd; Cysylltiadau a Threfniadaeth. Dyma sylfaen meini prawf y gystadleuaeth.

Camau'r gystadleuaeth

Mae 4 cam i'r gystadleuaeth – Caiff pob un ei farnu'n annibynnol gan dîm o feirniaid sy'n arbenigwyr ac yn entrepreneuriaid.

1. **Cam cyntaf:** Gallwch anfon lluniau atom a byddwn yn eich ychwanegu at ein 'Oriol Plant Mentrus' ar wefan Y Criw Mentrus. I gydnabod hyn byddwn yn e-bostio Pecyn Ymgeisio ynghyd â **Bathodyn a Thystysgrif Ddigidol** atoch er mwyn i chi eu hargraffu a'u harddangos. Efallai y byddwch chi hyd yn oed yn ennill un o'n **gwobrau misol!**

2. **Ail gam: Cyflwyno cais.** Os hoffech chi gael y cyfle i gymryd rhan yn un o'r **Rowndiau Rhanbarthol rhithwir** does ond eisiau i chi **uwchlwytho cais ar ffurf fideo 2 funud** yn rhoi gwybodaeth i ni am eich menter. Gellir recordio'r fideo ar smartphone, dyfais llaw neu gyfrifiadur. Nid oes yn rhaid i'r fideo fod o ansawdd proffesiynol. Os ydych yn ysgol gallwch gyflwyno unrhyw nifer o geisiadau ar gyfer categorïau Cynradd Is/neu Gynradd Uwch, ac nid oes unrhyw gyfyngiad ar y nifer o geisiadau o gymunedau neu aelwydydd cartrefi. Y cyfan a ofynnwn yw nad yw'r plant yn cymryd rhan mewn mwy nag un ymgais.

Rhaid cwblhau pob cais erbyn **4pm Llun 10 Mai 2021**.

3. Trydydd cam: Rownd Derfynol Rhanbarthol Rhithwir. Bydd y beirniaid yn sgorio ac yn dewis y ceisiadau gorau i fynd ymlaen i un o'r Rowndiau Terfynol Rhanbarthol Rhithwir. Bydd plant nad ydynt yn ennill lle mewn un o'r Rowndiau Terfynol Rhanbarthol Rhithwir yn ennill **Dyfarniad Tystysgrif Efydd**.

Cynhelir y Rowndiau Terfynol Rhanbarthol Rhithwir ar-lein rhwng **7 a 18 Mehefin 2021**. Bydd pob plentyn sy'n mynychu'r Rowndiau Terfynol Rhanbarthol yn ennill **Dyfarniad Tystysgrif Arian**

4. Pedwerydd cam: Rownd Derfynol Genedlaethol Rhithwir Cymru. Bydd y Rownd Derfynol Genedlaethol yn achlysur mawreddog llawn hwyl i ddatlu cyflawniadau'r holl blant yn eu gweithgaredd entrepreneuriaeth. Bydd y ceisiadau gorau o bob un o'r Rowndiau Terfynol Rhanbarthol yn mynd ymlaen i'r Rownd Derfynol Genedlaethol. Cynhelir hon ar-lein yn gynnar yn ystod mis **Gorffennaf 2021**. Bydd yr holl blant sy'n mynychu'r Rownd Derfynol Genedlaethol Rhithwir yn ennill **Gwobr Aur**. Bydd y plant sy'n derbyn Gwobrau yn y Rownd Derfynol Genedlaethol yn ennill **tystysgrif Gwobr Platinwm**.

Rydym am gydnabod disgyblion ar bob cam o'r daith yn y gystadleuaeth. Fel y amlinellir uchod byddant yn ennill gwobrau Plant Mentrus, Gwobrau Efydd, Arian, Aur neu Platinwm ar ffurf bathodyn, tystysgrif a chydabyddiaeth Plant Mentrus ar Oriol y Criw Mentrus o Gyfranogwyr yn ogystal â thystysgrifau i'r plant sy'n cymryd rhan yn y Digwyddiadau Rhanbarthol a Chenedlaethol Rhithwir. .

Yn ogystal â'r Gwobrau Efydd, Arian, Aur a Phlatinwm, yn y rowndiau Rhanbarthol a Chenedlaethol Rhithwir byddwn yn cyflwyno'r gwobrau dilynol. Bydd y rhain yn cydnabod elfennau a chryfderau penodol timau:

- Gwobr Ysbryd Tîm
- Gwobr Ymgysylltu â Busnes
- Gwobr Cysylltiadau â'r Cwricwlwm
- Gwobr ECO / Amgylcheddol
- Gwobr Menter Gymunedol
- Gwobr Seren y Criw – Unigolyn eithriadol (rhwng 4-7 mlwydd oed a 8-11 mlwydd oed)
- Enillydd Rhanbarthol y Cynradd Is a'r rhai sy'n dod yn ail (Rhanbarthol yn unig)
- Goreuon Rhanbarthol Cynradd Uwch (Rhanbarthol yn unig)
- Goreuon Rhanbarthol Cymuned/Aelwyd y Cartref (Rhanbarthol yn unig)
- Gwobr Cyflwyniad



- Pencampwr yr Athrawon – a enwebir gan y Pennaeth (Cenedlaethol yn unig)
- Enillydd Cenedlaethol a'r rhai sy'n dod yn ail (Cenedlaethol yn unig)

Ymgeisio yn y gystadleuaeth

Er mwyn cychwyn, y cyfan sy'n rhaid i chi ei wneud yw cofnodi eich manylion ar wefan Y Criw Mentrus - os ydych yn dweud wrthym am eich gweithgareddau menter ac yn anfon llun byddwn yn eich arddangos ar ein Oriel ar-lein Y dyddiad cau ar gyfer cwblhau'ch ymgais lawn yw **4pm ar 10 Mai 2021**. Os ydych yn cael unrhyw anhawster wrth gofnodi ar y wefan, anfonwch e-bost atom yn **helo@YCriwMentrus.com**

Ar ôl i ni dderbyn eich cais cychwynnol fe anfonir pecyn ymgeisio atoch trwy e-bost. Bydd y pecyn yma'n cynnwys deunyddiau adnodd i'ch rhoi ar ben ffordd.

Ystyriwch sut rydych yn cynnal menter ar hyn o bryd; os ydych yn ysgol hwyrach y buasech eisiau ystyried pa grŵp oedran sy'n mynd i gymryd rhan a beth yn eich barn chi fyddai'n gwneud cais da yng nghyswllt Cynradd Is a Chynradd Uwch neu hyd yn oed y ddau ystod oedran ar draws yr holl ysgol. Yn yr un modd os ydych yn grŵp cymunedol neu aelwyd gartref, mae'n bwysig sicrhau bod y gweithgaredd yn addas ar gyfer pob plentyn sy'n cymryd rhan er mwyn sicrhau eu bod yn mwynhau. Cofiwch y gallwch gyflwyno gymaint ag y mynnoch o geisiadau ar gyfer pob categori cyn belled a bod gwahanol blant yn cymryd rhan ym mhob gweithgaredd.

Os ydych yn cynnal y fenter ar draws Cwricwlwm yr ysgol ac mewn nifer o grwpiau blwyddyn, mae'n bosib y bydd angen i chi gynnal cystadleuaeth yn yr ysgol i nodi a dewis eich cais buddugol. Beth am ofyn i bobl busnes lleol gymryd rhan trwy gynorthwyo i farnu'r ceisiadau!

Eleni gall unrhyw nifer o blant gymryd rhan ym mhob categori a byddwn yn croesawu ceisiadau unigol gan blant. Bydd Gwobrau arbennig ar gyfer ceisiadau unigol hefyd. Os ydych chi'n llwyddo i ennill lle yn y Rowndiau Terfynol Rhanbarthol a Chenedlaethol Rhithwir gallwch ddod â'r holl blant sydd wedi cymryd rhan gyda chi i fod yn rhan o'r digwyddiad ar-lein a dewis pa blant hoffai gyflwyno eu menter i'r beirniaid.

Mae gwefan **www.YCriwMentrus.com** yn llawn adnoddau i'ch helpu i ddatblygu'ch syniadau menter. Mae'r adnoddau hyn yn cysylltu â'r cwricwlwm cynradd newydd ac yn cynnwys cyfres newydd sbon o gynlluniau gwersi fydd yn eich cynorthwyo gyda'ch prosiect menter. Mae yna hefyd enghreifftiau o brosiectau a gafodd eu cyflwyno yn ystod y blynyddoedd blaenorol

Y dyddiad cau am wneud cais yw 4pm ar 10 Mai 2021.



Gall ceisiadau gael eu uwch lwytho ar-lein. Gallwch ddychwelyd i ddiwygio/ychwanegu at eich cais gynifer o weithiau ag y dymunwch. Wedi i chi gwblhau eich cofrestriad byddwch yn derbyn e-bost gyda dolen gyswllt fydd yn eich galluogi i wneud hyn. Os byddwch yn cael unrhyw anhawster, rhowch wybod i ni trwy anfon e-bost atom yn **helo@YCriwMentrus.com**

Y broses farnu

Mae'r tabl isod yn dangos beth sy'n ofynnol ar bob cam o'r broses farnu a pha % o'r sgorau a gaiff eu dyfarnu am bob elfen.

Matrics sgorio	Cais Fideo	Cyflwyniad a Chyfweliad
Rownd Gyntaf: Cyflwyno Cais	100%	
Ail Rownd: Rownd Derfynol Rhanbarthol		100%
Trydedd Rownd: Rownd Derfynol Genedlaethol		100%

Caiff y **ceisiadau a gyflwynir** eu barnu gan ddefnyddio'r meini prawf isod ac fe'ch hysbysir pa unai yw eich cais wedi ei ddewis ar gyfer un o'r Rowndiau Terfynol Rhanbarthol Rhithwir erbyn **25 Mai 2021**.

Os yn llwyddiannus bydd eich cais yn mynd ymlaen i un o'r Rowndiau Terfynol Rhanbarthol Rhithwir i'w farnu'n annibynnol. Cofiwch, ni fydd sgoriau'r beirniaid a roddir yn y rownd gyntaf yn cael eu trosglwyddo i'r Rownd Derfynol Rhanbarthol.

Yn y Rowndiau Terfynol Rhanbarthol a Chenedlaethol fe wahoddir yr holl blant a'r gwarchodwyr sy'n cymryd rhan i fynychu digwyddiadau ar-lein a chyflwyno eu menter a derbyn cyfweliad anffurfiol gan ein beirniaid cyfeillgar fydd yn gofyn rhai cwestiynau iddynt.

Dangosir eu ceisiadau fideo dau funud yn ystod y digwyddiad neu gallant roi cyflwyniad dau funud ar y pryd i'r beirniaid, y gwesteion a'r timau eraill sy'n cymryd rhan.

Bydd y cyfweliad yn gyfle i'r plant sôn am eu menter.

Bydd y ffocws ar ddysgu a mwynhau, heb osod pwysau diangen ar y disgyblion. Yn ystod y digwyddiad ar-lein bydd cyfle i'r plant wyllo cyflwyniadau a chyfweliadau ymgeiswyr eraill a chymryd rhan mewn gweithgareddau gweithdy cysylltiedig â menter gyda'r Criw Mentrus.

Dylai cyflwyniad y disgyblion amlinellu pa weithgarwch menter a gyflawnwyd, pam y dewiswyd y gweithgarwch yma, pa sgiliau a ddysgwyd a'u datblygu, a'r hyn



aeth yn dda a'r hyn nad aeth cystal.

Yn ystod pob cam y gystadleuaeth bydd marciau'n cael eu dyfarnu yn erbyn y meini prawf isod. Atebwch bob maes yn eich cais cychwynnol er mwyn uchafu'ch sgôr ar y cam hwn. Ni fydd y marciau hyn yn cael eu hychwanegu i'r Rowndiau Terfynol Rhanbarthol a Chenedlaethol - mae pob cam yn cael ei farnu'n annibynnol.

Yng nghyswllt y plant sy'n ennill lle yn y Rownd Derfynol Genedlaethol Rhithwir mae cyfle i'r Pennaeth enwebu athro ar gyfer "Gwobr Pencampwr yr Athrawon". Cyflwyniad ysgrifenedig heb fod yn fwy na 300 o eiriau yw hwn i amlygu cyfraniad athro / athrawes unigol at ddatblygu'r ysbryd entrepreneuriaidd o fewn yr ysgol. Mae angen tystiolaeth o'u cyflawniadau drwy enghreifftiau a chanlyniadau. Caiff y wobwr yma ei hasesu'n genedlaethol a'i dyfarnu yn y Rownd Derfynol Genedlaethol.



Syniadau Mawr
Cymru
Big Ideas
Wales

Busnes | Business
Cymru | Wales



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cyswllt Noddwr



Associate Sponsor

Ymddygiadau ACCT allweddol	Meysydd / cwestiynau enghreifftiol Sut caiff hyn ei asesu?	Marciau a ddyfernir ar bob cam		
		Cais Fideo	Rownd Derfynol Ranbarthol	Rownd Derfynol Genedlaethol
<p>Agwedd Tystiolaeth o ddealltwriaeth disgyblion o'u hunain, eu cryfderau a'u cymhellion. Yn dangos yr ymddygiad canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Hunan-wybodaeth, cred a hyder Cymhelliant Dyhead Penderfyniad Cystadleurwydd 	<ul style="list-style-type: none"> Sut wnaeth y plentyn/plant gynnal ei/eu cymhelliant? Sut wnaeth y plentyn/plant ymdopi â sefyllfaoedd anodd? Sut wnaeth y fenter ddatblygu hyder a hunan-ymwybyddiaeth y plentyn/plant? Sut wnaeth y plentyn/plant bennu beth oedd/ oeddent am ei gyflawni? Sut wnaeth y plentyn/plant wella ei/eu dealltwriaeth o weithgarwch entrepreneuriaidd yn ystod y gweithgaredd? Sut wnaeth gwerthoedd y plentyn/plant dros yr amgylchedd, cymuned a busnes ddylanwadu ar eu penderfyniadau? 	/20	/15	/15



Ymddygiadau ACCT allweddol	Meysydd / cwestiynau enghreifftiol Sut caiff hyn ei asesu?	Marciau a ddyfernir ar bob cam		
		Cais Fideo	Rownd Derfynol Ranbarthol	Rownd Derfynol Genedlaethol
<p>Creadigedd Tystiolaeth o'r gallu i greu syniadau newydd, datrys problemau ac adnabod cyfleoedd newydd. Yn dangos yr ymddygiad canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Datrys problemau Meddwl yn ddargyfeiriol / creu syniadau Sylwi ar syniadau newydd a'u creu Arloesedd 	<ul style="list-style-type: none"> Sut wnaeth y plentyn/plant ddewis y cynnyrch neu'r gwasanaeth? Ydy'r cynnyrch neu'r gwasanaeth yn arloesol, ac os felly sut? Sut cafodd y cynnyrch neu'r gwasanaeth ei hyrwyddo i ddenu cwsmeriaid? Sut wnaeth y plentyn/plant werthu ei/eu cynnyrch neu wasanaethau? Unrhyw dechnegau gwerthu arloesol? Sut wnaeth y plentyn/plant ddatrys y broblem fwyaf a wynebwyd yn ystod y gweithgaredd? A gyfathrebodd y plentyn/plant ansawdd ei/eu cynnyrch neu wasanaeth yn effeithiol, a sut? 	/20	/15	/15



Ymddygiadau ACCT allweddol	Meysydd / cwestiynau enghreifftiol Sut caiff hyn ei asesu?	Marciau a ddyfernir ar bob cam		
		Cais Fideo	Rownd Derfynol Ranbarthol	Rownd Derfynol Genedlaethol
<p>Cysylltiadau Mae hyn yn ymwneud â phobl, y gallu i gyfathrebu'n effeithiol, mynegi eich barn a'ch syniadau eich hun, gwerthfawrogi safbwynt pobl eraill a gweithio'n gydweithredol. Yn dangos yr ymddygiad canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gweithio gydag eraill • Rheoli sefyllfaoedd anodd • Trafod, perswadio a dylanwadu • Cyflwyno • Cyfathrebu 	<ul style="list-style-type: none"> • Sut wnaeth y plentyn/plant chwilio am bartneriaethau â busnes lleol, rhieni ac eraill i gefnogi ei/ eu busnes? • Pa mor dda wnaeth y plant gydweithio? • Sut wnaeth yr holl blant ddeall eu rolau yn y busnes? • Sut wnaeth y busnes gyfathrebu â chwsmeriaid a phartneriaid ac a oedd yn effeithiol? • A wnaeth y plentyn/plant wrando ar safbwyntiau aelodau eraill a phobl tu allan i'r tîm? • 	/20	/15	/15



Ymddygiadau ACCT allweddol	Meysydd / cwestiynau enghreifftiol Sut caiff hyn ei asesu?	Marciau a ddyfernir ar bob cam		
		Cais Fideo	Rownd Derfynol Ranbarthol	Rownd Derfynol Genedlaethol
<p>Trefniadaeth Gwneud penderfyniadau gwybodus a chyflawni eich amcanion drwy gynllunio a rheoli sefyllfaoedd, adnoddau a risg. Yn arddangos yr ymddygiad canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynllunio • Rheoli adnoddau • Trafod, perswadio a dylanwadu • Ymchwilio a deall yr amgylchedd • Rheoli risg • Pennu gweledigaeth a nodau 	<ul style="list-style-type: none"> • Sut wnaeth y plentyn/plant gynllunio ei/eu menter? Oedd nodau clir ar gyfer y busnes? • Sut wnaeth y plentyn/plant gynnal ymchwil i'r farchnad a'i defnyddio i ddatblygu eu busnes? • Sut wnaeth y plentyn/plant ddyrannu rolau a chyfrifoldebau? • Sut wnaeth y plentyn/plant godi arian i gychwyn a rheoli eu harian? • A wnaeth y plentyn/plant elw? Beth ddysgodd y plentyn/plant am reoli arian? • Ansawdd y cyflwyniad. A yw'n ennyn diddordeb ac wedi ei gyflwyno'n dda? 	/20	/15	/15



Ymddygiadau ACCT allweddol	Meysydd / cwestiynau enghreifftiol Sut caiff hyn ei asesu?	Marciau a ddyfernir ar bob cam		
		Cais Fideo	Rownd Derfynol Ranbarthol	Rownd Derfynol Genedlaethol
Yn gyffredinol	<ul style="list-style-type: none"> Dywedwch wrthym pam y credwch eich bod yn haeddu ennill cystadleuaeth y Criw Mentrus 	/20		
Busnes	<ul style="list-style-type: none"> Sut wnaeth y plentyn/plant nodi a mynd ati i ymgysylltu â phartneriaid busnes? Pa ran gymerodd y busnes yn gyffredinol at fenter? 		/8	/8
ECO / Amgylcheddol	<ul style="list-style-type: none"> Ydi'r fenter yn gwneud newid amgylcheddol cadarnhaol i'r ysgol a'r gymuned ehangach? Pa effaith y mae'r fenter ECO wedi'i chael? e.e. o ran cyfraddau ailgylchu / arbedion ynni / gwastraff sy'n cael ei ddargyfeirio o dirlenwi ac ati Sut wnaeth y plentyn / plant ddod o hyd i ddeunyddiau? 		/8	/8
Cysylltiadau'r Cwricwlwm	<ul style="list-style-type: none"> Sut wnaeth y Gystadleuaeth gynorthwyo'r plentyn / plant gyda gwaith ysgol arall a chysylltiadau cwricwlwm? 		/8	/8



Ymddygiadau ACCT allweddol	Meysydd / cwestiynau enghreifftiol Sut caiff hyn ei asesu?	Marciau a ddyfernir ar bob cam		
		Cais Fideo	Rownd Derfynol Ranbarthol	Rownd Derfynol Genedlaethol
Menter Gymdeithasol	<ul style="list-style-type: none"> A yw'r cais yn mynd i'r afael â phwrpas cymdeithasol? Pa effaith y mae'r cais wedi'i gael ar y gymuned leol? 		/8	/8
Cyflwyniad	<ul style="list-style-type: none"> Ydy'r cyflwyniad wedi ei gynllunio a'i strwythuro'n dda? Ydy'r cyflwyniad yn ennyn diddordeb ac yn ddifyr? Ydy'r cyflwyniad yn dangos dysgu'r disgyblion a'u brwdfrydedd am eu menter 		/8	/8
CYFANSWM		100	100	100



Syniadau Mawr
Cymru
Big Ideas
Wales

Busnes | Business
Cymru | Wales



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cyswllt Noddwr



Associate Sponsor